# Cyngor Sir Ceredigion

# Taflen Gymorth Ystlumod a Datblygu

**Fersiwn 1**

**Tachwedd 2016**

Cafodd ei llunio'n unol â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n gymeradwy ganddynt

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 1
2. Gofynion yr Arolwg ..... 3
3. Y Mathau o Arolygon ..... 7
   Arolwg Cwmpasu Ystlumod ..... 7
   Arolwg ystlumod yn dod allan/yn dychwelyd ..... 9
   Arolygon Gweithgareddau Ystlumod ..... 9
   Arolygon gaeafgysgu ..... 10
   Adroddiad ..... 11
4. Gwarchod rhag Achosi Niwed, Lliniaru, Gwneud Iawn a Gwelliannau ..... 13
   Achosi Niwed a Lliniaru ..... 13
   Gwneud Iawn ..... 13
   Gwelliannau ..... 14
   Monitro ..... 15
5. Ymgynghori ..... 16
6. Dogfennau, dolenni a chyfeiriadau defnyddiol ..... 17

## 1. Cyflwyniad

**1.1 Bwriad y daflen hon yw helpu ymgeiswyr gyda cheisiadau a allai effeithio ar ystlumod. Mae'r daflen yn cynnwys arweiniad bras ynglyn â gofynion arolygon, gan gynnwys y canllawiau perthnasol. Fodd bynnag, yr ydym yn cymell datblygwyr i siarad â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cyflwyno'r cais er mwyn cael cyngor penodol.**

1.2 Mae'r arweiniad yn helpu datblygwyr gyflawni'r agwedd ragweithiol sydd gan y Cyngor tuag at geisio sicrhau amgylchedd naturiol o ansawdd uchel a mynd i'r afael â'r dyletswyddau statudol a'r cyfrifoldebau cymdeithasol, gan feithrin agwedd gadarnhaol at ddatblygu yr un pryd.

1.3 Caiff ystlumod eu gwarchod o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd 1992, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Felly mae'n anghyfreithlon:

- Mynd ati'n fwriadol i ddal, lladd neu niweidio ystlum
- Difrodi, dinistrio neu rwystro mynediad at glwydfannau ystlumod
- Aflonyddu ar ystlumod yn fwriadol

1.4 Nid yn unig mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i ddeiliaid tai a'r rhai sy'n gwneud y gwaith, mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Lleol hefyd i ystyried y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau.

1.5 Felly, mae'n bwysig sicrhau ystyried yr effaith ar ystlumod yn gynnar yn y broses ddatblygu er mwyn gwarchod rhag mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth, yn ogystal â lleihau unrhyw gostau ychwanegol ac er mwyn gwarchod rhag oedi.

1.6 Does dim sôn yma ynghylch gofynion arolygon ystlumod lle mae tyrbinau gwynt yn y cwestiwn. Fe gewch chi gyngor ynglŷn â hynny ar y 'Daflen Gymorth Cadwraeth Natur a Thyrbinau Gwynt' ar wefan y Cyngor www.ceredigion.gov.uk.

1.7 Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad i ddeiliaid tai ynglŷn â beth i'w ddisgwyl gan arolygon ystlumod ar wefan CIEEM[1].

### Y negeseuon allweddol (gweler y Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur am fwy o wybodaeth)

- Bydd angen i bawb sy'n gwneud cais ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar adeiladau, coed, pontydd, mwyngloddiau neu gael gwared ar lystyfiant ystyried y Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur/siarad â'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn penderfynu a oes angen cynnal arolygon ystlumod. Os bydd angen cynnal arolwg, bydd lefel yr arolwg yn dibynnu ar natur a maint y datblygiad a sensitifedd y cynefinoedd a'r rhywogaethau cyfagos.

- Cewch gyngor cyn gwneud y cais gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gan gynnwys Ecolegydd yr Awdurdod dim ond i chi ofyn (efallai bydd angen talu ffi fach) i drafod yr arolygon angenrheidiol ac i weld a yw'r cynlluniau lliniaru arfaethedig yn addas.

[1] http://www.cieem.net/publications/40/what-to-expect-from-a-bat-survey-a-guide-for-uk-homeowners

- Mae'n well cynnal yr arolygon ar ddechrau'r broses. Maen nhw'n gallu helpu'r gwaith dylunio o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na gorfod addasu'r canlyniadau o gwmpas y dyluniad.

- Rhaid cynnal rhai arolygon a gwaith lliniaru ar adegau neilltuol o'r flwyddyn. Felly, mae angen ystyried hynny o ran amseriad y cais a'r gwaith adeiladu.

- Yn yr adroddiadau bydd angen cynnwys canlyniadau'r arolwg **YN OGYSTAL AG** asesiad o effaith y datblygiad, yr argymhellion ar gyfer lliniaru ac ati.

- **Yng nghynlluniau'r cynnig mae'n rhaid cynnwys** y camau gweithredu a'r gwaith lliniaru sydd wedi eu hargymhell os ydynt yn ymwneud â dyluniad y datblygiad, y cynllun ac ati, oni bai y cytunir gyda'r Swyddog Cynllunio nad yw hynny'n angenrheidiol. Ymdrinnir ag argymhellion eraill (megis trwyddedau ar gyfer rhywogaethau a warchodir, contractau rheoli ac ati) gydag amodau/hysbysiadau gan ddibynnu ar y cyd-destun. Fel arall, mae modd cynnwys y rhain yn y cynlluniau er mwyn lleihau nifer yr amodau sydd ar ganiatâd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cytundebau Adran 106 os nad yw amodau'n addas. Gan ddibynnu ar y safle a'i nodweddion, efallai y bydd angen cyfraniad ariannol.

- Arolygon, asesiadau ac adroddiadau sy'n ofynnol i gael ei wneud yn unol â safonau Prydeinig ar gyfer bioamrywiaeth: Y Cod Ymarfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013) a'r canllawiau perthnasol (oni bai y gellir cyfiawnhau unrhyw wyriadau) a gan ecolegydd hyddysg a phrofiadol sy'n meddu ar y cymwysterau addas.

## 2. Gofynion yr Arolwg

2.1 Bydd angen i bob Datblygiad fodloni'r Polisïau Cenedlaethol (polisïau perthnasol Polisi Cynllunio Cymru (PPW) a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5), y Polisïau Lleol (polisïau DM14 a DM15 y Cynllun Datblygu LLeol) (gan gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur) a Safonau Bioamrywiaeth Prydain: Y Cod Ymarfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013). Mae'n rhaid i'r Cyngor i gyflawni'r dyletswyddau sydd arno o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd (Rheoliad 9(5)) ac Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

2.2 Wrth ystyried a oes angen cynnal arolwg ystlumod ai peidio, yn y lle cyntaf dylai ymgeiswyr droi at D**abl 3 y Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur** 'Gofynion lleol ar gyfer rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau sy'n cael blaenoriaeth o ran pryd mae angen arolwg ac asesiad '. Mae'r rhan sy'n ymwneud ag ystlumod yn **Nhabl 1** isod. Bydd y ceisiadau hynny sy'n bodloni meini prawf y tabl hwn yn annilys os nad oes arolwg ystlumod gyda'r cais.

2.3 Canllaw yn unig yw'r tabl yma ac os ydych chi'n ansicr a yw eich datblygiad chi'n bodloni'r meini prawf ai peidio, cysylltwch ag Ecolegydd Cynllunio'r Awdurdod Lleol i gael cyngor cyn ymgeisio (efallai bydd ffi fach). Os bydd yr Ecolegydd yn dweud wrthych nad oes angen arolwg, ond mae'n bodloni'r meini prawf, bydd angen i chi gyflwyno'r ohebiaeth ysgrifenedig a gawsoch gyda'r ecolegydd yn dystiolaeth gyda'r cais er mwyn iddo gael ei ddilysu. *Cofiwch*: Os bydd y cynlluniau'n newid ar ôl i chi fod yn eu trafod gyda'r ecolegydd cyn i chi gyflwyno'r cais, efallai y bydd gofyn i chi gynnal arolwg ar ôl i'r ecolegydd weld y cais ei hun.



2.4 Mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau sy'n cynnwys dymchwel/newid unrhyw adeiladau, heblaw am estyniadau sy'n ddigon pell o'r soffitiau/bondo, yn debygol o fod angen o leiaf arolwg cwmpasu lle mae ystlumod yn y cwestiwn, ac felly bydd angen ystyried hynny wrth gynllunio amserlen a dyluniad y datblygiad.

2.5 Bydd angen bod ecolegydd hyddysg a phrofiadol sy'n meddu ar gymwysterau addas yn cynnal yr holl arolygon yn ystod y tymor priodol ac yn unol â'r safonau priodol o ran yr arolwg a'r fethodoleg. Mae'n ofynnol gan y Cyngor bod **yr holl arolygon ystlumod yn cael eu cynnal/eu harwain gan ecolegydd ystlumod trwyddedig**. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur (a fydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion: www.ceredigion.gov.uk) yn cynnig rhagor o wybodaeth am ofynion yr arolygon ac amseriadau arolygon yn gyffredinol.

2.6 Bydd angen cynnal yr holl arolygon ac asesiadau o'r ystlumod yn unol â'r Canllawiau Ymarfer Da Arolygon Ystlumod (2016). Rhaid iddynt gynnwys arolwg cwmpasu ar gyfer ystlumod man lleiaf, a bydd angen gwneud arolygon eraill yn ogystal lle mae hynny wedi ei nodi (neu ar gais Ecolegydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol/Cyfoeth Naturiol Cymru). Os bydd angen arolygon eraill, bydd angen eu cynnal cyn cyflwyno'r cais, neu fe fyddant yn annilys.

2.7 Yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 5, os yw'n debygol bod ystlumod, hyd yn oed os yw'r risg yn isel, bydd yn ofynnol cynnal arolygon ystlumod er mwyn penderfynu a oes ystlumod yn bresennol, pa rywogaethau a'u defnydd o'r safle cyn rhoi caniatâd cynllunio. Felly, dyw hi ddim yn bosibl cynnal arolygon ystlumod ac ni fydd yn bosib lliniaru pethau ar gyfer ystlumod heb wybod yn union beth sydd yno a pha ddefnydd sy'n cael ei wneud.

**Tabl 1**. Yr hyn sy'n ofynnol yn lleol i ddiogelu rhywogaethau a warchodir a rhai sy'n cael blaenoriaeth pan fo angen arolwg ac asesiad ystlumod

| **Cynigion i ddatblygu a fydd yn sbarduno arolwg o'r rhywogaethau a warchodir** |
|---|
| Datblygiad arfaethedig sy'n golygu newid, cyfaddasu, dymchwel neu gael gwared ar adeiladau ac adeileddau (enwedig toeau gwag) sy'n cynnwys y canlynol: |
| • unrhyw adeiladau sydd â; toeau llechi, talcenni, cladin gwlyb, planhigion dringo trwchus, teils hongian ac atig, soffitiau heb eu selio; yn enwedig dymchweliadau a newidiadau sy'n effeithio ar y to (e.e. estyniadau tai, cyfaddasu'r atig, ail-doi, estyniadau hyd at y soffitiau* neu'n agos atynt ac ati); |
| • adeiladau traddodiadol megis eglwysi, capeli ac ati; |
| • pob adeilad amaethyddol (*e.e.* ffermdai ac ysguboriau) yn enwedig os ydynt wedi eu gwneud o frics traddodiadol neu gerrig ac/neu gyda thrawstiau pren agored sy'n fwy na 20 cm o drwch; |
| • adeiladau o'r cyfnod cyn-1914 sydd o fewn 400m o goetir ac/neu ddŵr; |
| • twneli, mwyngloddiau, odynau, tai iâ, ceuffyrdd, amddiffynfeydd milwrol, llochesau cyrchoedd awyr, seleri a phibellau ac adeileddau tanddaearol tebyg; neu |
| • pontydd, dyfrbontydd a thraphontydd (yn enwedig dros ddŵr a thir gwlyb) |
| • Rhai cynigion o fewn 200m o goetir (gan ddibynnu ar y cynnig) |
| Cynigion sy'n ymwneud â goleuadau ar eglwysi ac adeiladau rhestredig neu lifoleuadau ar fannau gwyrdd o fewn 50m o goetiroedd, o ddŵr, o gloddiau caeau neu o linellau o goed sydd â chysylltiad amlwg â choetiroedd neu mae posibilrwydd canolig neu uchel bod clwydfannau i'w cael yno. |
| Cynigion sy'n effeithio ar goetiroedd, neu wrychoedd/cloddiau, caeau, neu waliau cerrig ac ati ac/neu linellau o goed, yn enwedig rhai sydd â chysylltiad amlwg â choetiroedd neu ddŵr a rhai sy'n wynebu'r de (yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin). |
| Gwaith coed arfaethedig (cwympo coed neu topio) ac/neu ddatblygiad sy'n effeithio ar |
| ▪ hen goed a choed sy'n hŷn na 100 oed; |
| ▪ coed sydd â thyllau neu graciau amlwg, y rhisgl yn caenu, rhwygiadau ac/neu holltiadau agored |
| ▪ coed gyda chwmpas o fwy nag 1m ar uchder y frest; |
| Cynigion ar gyfer tyrbinau gwynt, sengl a lluosog, gosodiadau PV a chynlluniau ynni dŵr (**mae canllawiau neilltuol ar wefan yr Awdurdod Lleol**) |
| Cynigion sy'n effeithio ar byllau gro neu chwareli a chlogwyni naturiol a chreigiau brig y mae iddynt agennau, ogofâu neu lyncdyllau. |
| Rhai cynigion sy'n effeithio ar afonydd, nentydd, camlesi, llynnoedd, pyllau dŵr, glaswelltir corslyd neu gynefinoedd dyfrol eraill neu sydd o fewn 200m atynt (gan ddibynnu ar y cynnig) |
| Cynigion sy'n effeithio ar laswelltir neu brysgwydd sy'n fras ei dyfiant neu sy'n gyforiog o rywogaethau |

| |
|---|
| Datblygiad arfaethedig sy'n effeithio ar unrhyw adeiladau, adeileddau, nodwedd neu leoliadau y gwyddys bod rhywogaethau a warchodir/sy'n cael blaenoriaeth yn trigo ynddynt*. |

*Os yw estyniad/adeilad newydd o fewn 500mm o'r bondo/soffit

## 3. Y Mathau o arolygon


3.1 Gan ddibynnu ar y safle a natur/maint y datblygiad a pha wybodaeth sydd ei hangen, gallai arolygon gwahanol fod yn briodol, ac mae disgrifiad byr o'r rheiny isod. Mae disgrifiad manwl ac arweiniad ar gael yng Nghanllawiau Ymarfer Da Arolygon Ystlumod yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod (BCT) 2016.

3.2 Mae'n bwysig darganfod a oes ystlumod yn bresennol, ac mae eu defnydd o'r safle'n bwysig hefyd e.e. lle maen nhw'n clwydo, pa fath o glwydfan ydyw, pryd maen nhw'n ei defnyddio, lle maen nhw'n pori, lle mae eu llinellau hedfan; pa rywogaeth ydynt, a'r niferoedd yn fras. Mae'r holl wybodaeth yma'n creu darlun ac yn helpu penderfynu, os oes ystlumod, beth fyddai'r ffordd orau o liniaru'r effeithiau, ac o dan amgylchiadau eithriadol iawn, a yw hynny'n bosibl o gwbl. Yna byddai'r wybodaeth yma'n mynd at gais am drwydded cyn datblygu, lle bo angen.

3.3 Mae angen gwybodaeth amrywiol iawn a dyna pam mae angen mwy o arolygon, hyd yn oed ar ôl darganfod ystlumod, oherwydd, gan ddibynnu ar y glwydfan, dyw hi ddim yn wastad yn bosibl codi'r holl wybodaeth mewn un arolwg. Dyna pam mae angen nifer o arolygwyr yn aml.

### Arolwg Cwmpasu Ystlumod

3.4 Mae Arolwg Cwmpasu Ystlumod yn cynnwys archwiliad trylwyr yn fewnol ac yn allanol ynghyd ag astudiaeth ddesg ac fe'i defnyddir i asesu p'un a oes angen cynnal arolwg i weld a ddaw ystlumod i'r fei ac/neu arolwg o'u gweithgareddau. Dylid cynnal yr arolygon cwmpasu gyda'r cyfarpar priodol, megis ysgolion a fflachlampau pwerus, lle bo angen. Bydd rhai arolygwyr ystlumod hefyd yn gwneud arolwg i weld a oes ystlumod yn dod i'r fei gyda'r nos fel rhan o'r arolwg cwmpasu (yn ystod y tymor y bydd yr ystlumod ar hyd y lle).



[2]

3.5 Bydd Arolwg Cwmpasu'r Ystlumod yn cynnwys pob un o'r mannau y mae'r ystlumod y bydd y datblygiad yn effeithio arnynt yn eu defnyddio, e.e. gwella mynediad a allai arwain at golli coed/gwrychoedd.

3.6 Mae'n bosibl cynnal arolygon cwmpasu ystlumod y tu allan i'r cyfnod y maen nhw ar hyd y lle (sef Mai – Awst (Medi efallai), ond yn unol â Chanllawiau Ymarfer Da Arolygon Ystlumod (2016), efallai y bydd yn llai tebygol o ddiystyru gwaith arolwg ystlumod ymhellach oherwydd y anweithgarwch. xxx Cofiwch ystyried hynny wrth gomisiynu gwaith.

3.7 Bydd asesiad arolwg cwmpasu'r ystlumod yn ystyried yr asesiad mewnol ac allanol, astudiaeth ddesg, y cynefinoedd sydd wrth law a chysylltedd â'r dirwedd ehangach er mwyn asesu'r risg o ran a yw'r adeilad sydd dan sylw'n ddibwys, yn isel, yn ganolig neu'n uchel o ran y posibilrwydd bod ystlumod yn trigo ynddo, neu fe all gadarnhau fod rhai ystlumod i'w cael yno o'u baw, olion bwyta neu staeniau. Yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 5, bydd angen cynnal arolygon llawn ar adeiladau sydd â risg isel neu uwch i nodi a yw'r ystlumod yn dod allan/yn dychwelyd yn ystod y cyfnod y maen nhw ar hyd y lle. Mae nifer yr arolygon sy'n ofynnol wedi ei bennu yn y Canllawiau Ymarfer Da Arolygon Ystlumod (2016) a bydd angen cyfiawnhau a chytuno ynghylch unrhyw wyriadau oddi wrth hynny.

3.8 Efallai y bydd asesiad arolwg cwmpasu'r ystlumod yn nodi hefyd/yn hytrach fod angen cynnal arolygon gaeafgysgu yn ystod y cyfnod gaeafgysgu (byddai modd eu cynnal rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror), neu fod angen cynnal arolygon o'u gweithgarwch (i weld sut mae'r ystlumod yn defnyddio'r ardal ac nid yn unig yr adeilad).

---

[2] Yr Ymddiiriedolaeth Gwarchod Ystlumod - Ystlumod mewn Adeiladau http://www.bats.org.uk/pages/bat_roosts.html

3.9 Os yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar goed, bydd angen i arolwg cwmpasu'r ystlumod gynnwys asesiad o unrhyw glwydfannau posibl yn y coed hynny ac fe allai hynny yn ei dro fod yn sbardun i fwy o arolygon.

## Arolwg o'r ystlumod yn dod allan/yn dychwelyd

3.10 Bydd angen comisiynu'r arolwg o'r ystlumod yn dod allan/yn dychwelyd ar ôl i arolwg cwmpasu'r ystlumod nodi'r adeiledd yn un o risg isel, cymedrol neu uchel, neu ar ôl cadarnhau bod ystlumod yno[3] neu ar ôl categoreiddio coeden (y gwnaiff y datblygiad effeithio arni) yn ganolig neu'n uchel o ran y posibilrwydd bod clwydfannau ystlumod arni neu mae'n hysbys bod clwydfan arni [4].

3.11 Rhaid cynnal yr arolygon yn ystod y cyfnod y bydd yr ystlumod ar hyd y lle ac yn debygol o fod yn eu clwydfannau. Yn gyffredinol golyga hynny fis Mai hyd fis Awst (weithiau mis Medi), gan ddibynnu ar tywydd. Os oes amheuaeth bod y safle yn cynnal clwydfannau mamolaeth, bydd angen cynnal o leiaf un arolwg rhwng diwedd Mai/dechrau Mehefin-Awst (gan ddibynnu ar y tywydd). Cewch fwy o fanylion ynglŷn â'r union amseriad yn y Canllawiau Ymarfer Da Arolygon Ystlumod (2016).

3.12 Mae'r arolwg yma'n cynnwys arolwg yn y cyfnos/gyda'r wawr i asesu a oes unrhyw ystlumod yn dod allan o'r glwydfan/yn dychwelyd yno gan ddefnyddio synwyryddion ystlumod i ac asesiadau gweledol. Bydd y gwylwyr yn defnyddio synwyryddion llaw a synwyryddion sefydlog (eu gadael dros nos ar gyfer un neu nifer o nosweithiau) er mwyn darganfod a oes yno ystlumod a pha rywogaethau. Bydd asesiadau gweledol hefyd yn helpu nodi neu gadarnhau'r pwyntiau mynediad posibl a'r llinellau hedfan. Felly, yn aml bydd angen nifer o wylwyr i sicrhau bod modd gweld yr holl bwyntiau mynediad posibl yn ystod yr arolwg. Gall amseriad yr arolwg, a niferoedd ac ymddygiad yr ystlumod helpu nodi'r math o glwydfan sydd yno e.e. mamolaeth, clwydfan nos ac ati.

3.13 Mae modd gwneud Arolygon Gwylfannau lle mae arolygon coed yn y cwestiwn, ond bydd hynny'n dibynnu ar y safle. Gellid defnyddio arolygon i ddilyn yr ystlumod yn ôl i'w clwydfannau os oes mwy nag un adeilad dan sylw.

3.14 Mae lefel gofynion yr arolwg yn cael ei gosod yn y canllawiau a bydd angen cyfiawnhau unrhyw wyriadau a'u cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol/Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Arolygon Gweithgareddau Ystlumod

3.15 Mae arolygon gweithgareddau ystlumod yn nodi llinellau hedfan yr ystlumod a lle maen nhw'n pori. Mae hynny o'r pwys mwyaf os yw'n fwriad dileu rhan o berth neu rannau o brysgwydd/coed/porfa. Maen nhw'n ofynnol hefyd ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau tyrbinau gwynt (gweler y Daflen Gymorth Cadwraeth Natur a Thyrbinau Gwynt[5] i gael mwy o wybodaeth).

[3] Weithiau naill ai oherwydd risg uchel-cymedrol amlwg, neu oherwydd ei bod yn hysbys bod clwydfannau ystlumod, gallai Ecolegydd yr Awdurdod Lleol/Cyfoeth Naturiol Cymru/Ecolegydd Ymgynghorol ofyn am arolwg llawn o'r ystlumod yn syth. Byddai hynny'n cynnwys yr arolwg cwmpasu, unrhyw arolygon o'r ystlumod yn dod allan/yn dychwelyd, arolygon o'u gweithgareddau a gaeafgysgu.

[4] Canllawiau Ymarfer Da Arolygon Ystlumod yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod 2016 Pennod 6 a 7

[5] www.ceredigion.gov.uk

3.16 Fel arfer caiff arolygon gweithgareddau eu cynnal gyda chyfuniad o synwyryddion sefydlog sy'n cael eu gadael dros nos neu am sawl noson, a phobl â synwyryddion llaw'n cerdded trwy'r ardal ar drawslinellau sydd wedi eu pennu ymlaen llaw.

3.17 Mae arolygon gweithgareddau hefyd yn gallu dangos pa ddefnydd mae'r ystlumod yn ei wneud o'r ardal, cyfeiriad tebygol y glwydfan a'r defnydd tebygol.

3.18 Eto, mae lefel gofynion yr arolwg yn cael ei gosod yn y canllawiau a bydd angen cyfiawnhau unrhyw wyriadau a'u cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol/Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Arolygon Gaeafgysgu



3.19 Yn y gaeaf mae ystlumod yn gaeafu neu'n gaeafgysgu. Maen nhw'n mynd am gyfnodau hir heb fwyta diim. Mae'n well gadael llonydd iddyn nhw yn y cyfnodau hyn oherwydd fe allech chi beri iddynt fynd yn sâl neu farw oherwydd bydden nhw'n defnyddio egni prin i hedfan ac yna bydden nhw'n anhebygol o ddod o hyd i le arall addas mewn da bryd.

3.20 Cynhelir arolygon gaeafgysgu gyda fflachlampau cryfion a meicro-gamera sgôps. Yn aml dyw hi ddim yn bosibl cynnal arolygon gaeafgysgu, er enghraifft os tybir bod yr ystlumod yn gaeafgysgu mewn ceudod wal neu'n ddwfn mewn coed.

## Yr Adroddiad

3.21 Dylai'r adroddiad gynnwys canlyniadau'r uchod ac **asesiad o'r effeithiau**, gan gynnwys unrhyw arolygon pellach sy'n gymeradwy fel bo angen.

3.22 Bydd angen asesu effeithiau'r gwaith adeiladu a'r effeithiau ar ôl gorffen adeiladu, gan gynnwys y canlynol (dyw'r rhestr ddim yn gynhwysfawr):

- Colli cynefinoedd
  - e.e. cynefinoedd yr ystlumod oherwydd aflonyddwch, dinistrio neu rwystro clwydfannau'r ystlumod
- Aflonyddu
  - e.e. yr ystlumod yn eu cynefin, tarfu arnynt yn eu clwydfannau gan gynnwys gaeafgysgu, goleuadau
- Hel yr ystlumod i ffwrdd
  - e.e. o'r mannau lle maen nhw'n pori am fwyd/llinellau hedfan
- Lladd ystlumod unigol
  - e.e. wrth adeiladu
- Effeithiau cronnus
  - Y cyfan o'r uchod

3.23 **Mae Tabl 2** isod yn manylu ynghylch cwmpas, manylion a'r wybodaeth y dylid eu cynnwys yn holl adroddiadau'r arolwg a'r asesiad ecolegol.

**Tabl 2**. Y cwmpas, y manylion a'r wybodaeth y dylid eu cynnwys yn holl adroddiadau'r arolwg a'r asesiad ecolegol.

| Y Gofynion | Rhestr Wirio |
|---|---|
| Sicrhau bod cwmpas yr arolwg wedi'i ystyried a bod yr arolwg yn addas a phriodol. | |
| Bydd angen i'r asiant/pensaer/datblygwr a'r ymgeisydd lofnodi ymwadiad yn datgan eu bod wedi darllen a deall adroddiad yr arolwg: **Yr wyf i, [enw], yn cydnabod derbyn yr arolwg ecolegol dyddiedig [dyddiad] ynghylch [cyfeiriad]. Yr wyf wedi darllen y cynnwys ac yr wyf yn deall y rhwymedigaethau cyfreithiol sydd arnaf o ran unrhyw rywogaethau a warchodir a chynefinoedd a allai fod yn bresennol yn y cyfeiriad hwn. [Arwyddwyd**[. | |
| Enw, cymwysterau'r arolygwyr ac aelodaeth o gyrff proffesiynol (lle bo'n berthnasol), profiad a thrwydded EPS (Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop) berthnasol. | |
| Crynodeb Gweithredol yn gosod y prif ganfyddiadau, argymhellion (gan gynnwys mesurau lliniaru), cyfyngiadau ac a oes angen mwy o arolygon (**mewn print trwm**). | |
| Nodyn i ddweud a oes unrhyw wybodaeth sensitif sydd wedi ei hymgorffori mewn Anecs cyfrinachol ar wahân. | |
| Cyflwyniad a chrynodeb o'r safle (enw'r safle, y cyfeirnod grid, cynllun lleoliad y safle, dyddiad yr arolwg). | |
| Astudiaeth ddesg (gan gynnwys crynodeb o chwilio data 'r Ganolfan Cofnodion Lleol – Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru). | |
| Methodoleg yr arolwg (trawsgyfeirio at y canllawiau y byddwch yn eu dilyn, cyfiawnhad dros y | |

| | |
|---|---|
| dulliau, yr offer y byddwch yn ei ddefnyddio, y cyfyngiadau). | |
| Disgrifiad o'r adeilad/adeiledd, coed/gwrychoedd, y cynefin/safle cyfagos, y coridorau sy'n cysylltu nodweddion y cynefin ac asesiad cyffredinol o botensial y safle i gynnal ystlumod yn allanol ac yn fewnol (bydd angen cynnwys lluniau neu ffotograffau). Cofiwch gynnwys hefyd fanylion unrhyw ddigwyddiadau a digwyddo ar y safle cyn cynnal yr arolwg neu wedyn e.e. gwaith amaethyddol, clirio'r safle ac ati[6]). | |
| Cynllun yn dangos lleoliad gwylwyr yr ystlumod lle buon nhw'n cynnal arolygon ystlumod yn y cyfnos a gyda'r wawr a lleoliadau unrhyw drawslinellau symudol neu synwyryddion sefydlog | |
| Canlyniadau'r arolwg (gan gynnwys enw gwyddonol y rhywogaeth, y nifer (os yw hynny'n berthnasol), enw'r cofnodydd, y dyddiad cofnod, y tywydd, dyddiad, amser yr arolwg, yr hyd). Crynodeb o'r dystiolaeth a gawsoch chi o ystlumod (megis y nifer/pa fath o faw, staeniau sydd), canlyniadau arolygon gweithgareddau ac/neu arolygon gwylfannau, y casgliadau (megis y mathau o glwydfannau) ac asesiad o effaith y datblygiad gan gynnwys casgliadau ynglŷn â chynnal statws cadwraeth ffafriol (FCS) y boblogaeth dan sylw. | |
| Map sy'n crynhoi'r cofnodion o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd (gan gynnwys Cynefin Cam 1 / codau Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC) (lle bo'n berthnasol), nodiadau targed, adeileddau/nodweddion) a ffotograffau cysylltiedig. | |
| Cynlluniau sy'n dangos lleoliad y dystiolaeth (megis y nodweddion addas, lle mae'r clwydfannau, y mannau mynediad, y llinellau hedfan, samplo golau, yr ardaloedd heidio). | |
| Cloriannu'r safle cyfan, y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn eu cyd-destun ecolegol a ffisegol ac yn unol â'r statws sydd ganddynt mewn deddfwriaeth (EPS, LBAP) | |
| Asesu effeithiau posibl y datblygiad (gan gynnwys y rhai uniongyrchol, anuniongyrchol, effaith yr adeiladu, y defnydd parhaus, effeithiau tymor byr a hir) ar y safle, y rhywogaethau a'r cynefinoedd cyfagos a sut mae gwarchod rhag yr effeithiau, eu lliniaru neu wneud iawn amdanynt (sy'n dangos bod pethau wedi eu gwneud fesul cam [7]). Bydd angen ystyried unrhyw ddewisiadau amgen yn fanwl ac asesu i weld a yw'n debygol y byddai niferoedd/cynefinoedd y rhywogaeth yn cwympo neu'n cynyddu.[8] Wrth gyfeirio at yr effeithiau mae angen ystyried y Polisïau Lleol a Chenedlaethol a'r deddfwriaeth berthnasol. | |
| Asesiad o'r effeithiau anuniongyrchol gan gyfeirio'n benodol at Reoliad 50 Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) a dal/lladd achlysurol | |
| Argymhellion (gan gynnwys manylion unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig, gwneud iawn a gwelliannau a'r datganiad o ddull e.e. amseru). **Nodwch yn glir** pa argymhellion sy'n orfodol a nodwch gamau gweithredu ar gyfer yr asiant/datblygwr/ymgeisydd lle mae'r cais cynllunio yn y cwestiwn. **Bydd angen trafod hyn gyda'r pensaer/asiant a'i gynnwys ar y lluniau pensaernïol (mesuriadau, lleoliad y mannau mynediad, y deunyddiau, gwelliannau).** | |
| Manylion y cynigion a fydd yn gwella, yn adfer neu'n ychwanegu at nodweddion neu gynefinoedd neu safleoedd neu'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan rywogaethau a warchodir.[9] | |
| Lle bo ystlumod, bydd angen asesu a chynghori ynghylch y rheidrwydd am drwydded EPS **Cyfoeth Naturiol Cymru** a bydd angen datganiad dull yn yr adroddiad yn unol â gofynion | |

[6] Gweler Cymal 6.4.8 BS42020 (BSI,2013) i gael mwy o wybodaeth

[7] Gweler Adran 7, paragraff 2.4 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 a Chymal 5.2 BS42020

[8] Gweler 6.5 BS42020

[9] Mae'n rheidrwydd o dan Bolisi DM 15 CDLl Ceredigion yn ogystal â DM06, Dyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) a Chymal 6.3.3 BS42020

| | |
|---|---|
| trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru (p'un a oes angen trwydded ai peidio). Yr argymhelliad yw y dylai hyn ddilyn cynllun Rhan C ffurflen gais y drwydded [10] | |

## 4. Gwarchod rhag Achosi Niwed, Lliniaru, Gwneud Iawn a Gwelliannau

4.1 Isod mae manylion ynglyn â sut mae gwarchod rhag effeithio ar ystlumod, lliniaru a lleihau'r effeithiau a gwneud iawn am unrhyw effeithiau nad yw'n bosibl eu lliniaru yn unol â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 a Pholisi DM15: Gwarchod Bioamrywiaeth Leol  Mae rhai gwelliannau posibl wedi eu nodi isod. Fel rheol mae'r rhain yn ymwneud â safleoedd penodol a bydd angen i'r ecolegydd ymgynghorol eu hargymell.

### Gwarchod rhag Achosi Niwed a Lliniaru

4.2 Pan fyddwch chi'n cynllunio'r datblygiad ystyriwch yr isod er mwyn lleihau'r peryglon i ystlumod. Fe allai hyn leihau peth ar y gwaith lliniaru ac arolygu.

- Os mai'r bwriad yw gwneud newidiadau i annedd, **peidiwch ag effeithio ar y to, y soffitiau, y bondo** ac ati **a pheidiwch â dwyn yr estyniad yn is na 500mm o dan y bondo**.
- **Cadwch gymaint ag sy'n bosibl o'r perthi a'r coed.**
- Sicrhewch **fod y goleuadau'n unol â'r argymhellion** sydd ar wefan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod http://www.bats.org.uk/pages/bats_and_lighting.html ac nad oes dim goleuadau diangen.

4.3 Os yw'n anochel y bydd effeithiau, efallai y bydd yn bosibl i'r gwaith fynd yn ei flaen o dan egwyddor Ymarferoldeb Ecolegol Parhaus'(CEF) os cedwir y glwydfan a'r fynedfa ati ac y bydd y gwaith yn digwydd y tu allan i'r tymor mwyaf allweddol. Mae'n bosibl y bydd angen ecolegydd ystlumod yno hefyd. Bydd angen arolygon o'r ystlumod yn yr achosion yma, ond efallai mai'r cyfan y bydd ei angen yw'r datganiad dull ac na fydd angen trwydded. Os credir bod y gwaith un unol ag egwyddor Ymarferoldeb Ecolegol Parhaus' (CEF) bydd angen cytundeb Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.4 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod daflen ynglŷn ag ystlumod ac adeiladau http://roost.bats.org.uk/principles/avoidance ac mae gan Natural England Ganllawiau ar gyfer mesurau lliniaru a gwarchod rhag niwed lle mae ystlumod yn y cwestiwn o 2004.

### Gwneud Iawn

4.5 Os yw'r clwydfannau neu'r mynedfeydd am gael eu colli neu'u newid am byth, y peth gorau i'w wneud yw adfer y mynedfeydd/y clwydfannau yn yr adeilad ar ôl ei newid, er mewn rhai achosion efallai y bydd modd cytuno ar ddull arall mwy addas.

4.6 Bydd yr addasiad sy'n yn ofynnol yn dibynnu ar y rhywogaethau sydd yno, pa fath o glwydfan, y glwydfan ei hun a niferoedd yr ystlumod sy'n debygol. Er enghraifft byddai llawer llai o wneud iawn yn achos ystlum lleiaf cyffredin sy'n defnyddio safle fel clwydfan achlysurol yn ystod y dydd

[10] http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-buy-report/apply-buy-grid/protected-species-licensing/european-protected-species-licensing/do-i-need-a-licence/?lang=en#.U0exWaL4Z6Y Ffurflen gais y drwydded a'r canllawiau

nag a fyddai ar gyfer clwydfan mamolaeth yr ystlum pedol mwyaf. Gweler Ffigur 4 Canllawiau English Nature 2004 ar gyfer Mesurau Lliniaru ar gyfer Ystlumod am wybodaeth ynglyn â phwysigrwydd eu gwarchod.

4.7 Rhaid hefyd ystyried y goblygiadau o ran newid defnydd yr adeilad e.e. os oes angen mynediad i'r atig, peidiwch â defnyddio defnyddiau anadladwy. Yn hytrach, er mwyn bodloni gofynion y drefn rheoli adeiladu bydd angen cynnwys mesurau awyru yn yr atig. Rhaid ystyried effeithiau eraill megis newidiadau yn y tymheredd e.e. oherwydd paneli solar neu inswleiddio'r waliau allanol, a lle bo angen rhaid gwneud addasiadau angenrheidiol.

4.8 Weithiau dyw hi ddim yn bosibl/yn ddichonol gwneud iawn ac efallai y bydd angen gwrthod y cais. Mae'r **achosion hyn yn brin iawn** ac mae llawer o geisiadau'n cael eu pasio gyda mân newidiadau i'r cynlluniau a'r amseriadau.

4.9 Efallai y bydd yn bosibl ail-greu rhai o'r cynefinoedd neu ymgorffori mesurau eraill i wneud iawn. Er enghraifft, petai angen cael gwared ar nifer o berthi er mwyn cael mynediad, efallai y byddai'n bosibl ail-blannu'r perthi yn ôl o'r llinell weledig gan effeithio ar y llinellau hedfan am gyfnod byr yn unig.

## Gwelliannau

4.10 O dan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 a pholisïau DM06 a DM15 y CDLl, mae gwelliannau ecolegol yn ofynnol ar gyfer datblygiadau. Ar gyfer datblygiadau gan ddeiliaid tai, gallai hyn fod mor syml â darparu tiwb ar gyfer ystlumod mewn wal estyniad, teilsen ar gyfer ystlumod ar do newydd neu flwch ar gyfer ystlumod ar wal sydd eisoes yn bodoli. Ar gyfer datblygiadau mwy o faint, byddai cyfuniad o'r rhain ynghyd â phlannu planhigion addas yn briodol.

4.11 O ran rhywogaethau sy'n clwydo mewn agennau mewn creigiau, mae'n bosibl darparu mannau clwydo mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys:

- Mynediad at flychau soffit a bondo drwy fwlch bach (15-20 mm) rhwng y bondo a'r wal
- Cladin pren wedi'i osod ar estyll cownter 20-30 mm â mynediad i'r ystlumod yn y gwaelod neu ar yr ochr
- Mynediad at y llefydd gwag yn y to drwy friciau ystlumod , bylchau mewn gwaith maen, bylchau yn y soffitiau, y sêl blwm wedi ei chodi neu fynedfeydd pwrpasol ar gyfer ystlumod
- Mynediad at y llefydd gwag yn y to ar ben wal geudod trwy greu bylchau priodol.



4.12 Os nad ydych chi'n bwriadu defnyddio ffelt bitwmen trwy'r atig i gyd, a hynny gyda dulliau awyru, peidiwch â cheisio gwneud mynedfeydd newydd i'r atig oherwydd fe allai'r ystlumod fynd yn sownd mewn defnyddiau anadladwy[11].

[11] http://www.bats.org.uk/news.php/254/bats_and_breathable_roofing_membranes_update_of_findings_%20

4.13 Weithiau fe all fod mai blychau ystlumod yw'r ateb gorau ac efallai fod llefydd iddynt ar adeiladau neu mewn coed (gan ddibynnu ar y rhywogaeth a'r glwydfan). Bydd angen ystyried cynnal a chadw'r blychau a pha mor wydn ydynt ac am faint y gwnan nhw bara, ac yn enwedig o ran blychau ystlumod sydd wedi ei gwneud o bren, bydd angen i chi fanylu ynglŷn â sut a phryd y byddwch yn gosod rhai newydd.

4.14 Gall fod yn fwy anodd darparu ar gyfer y rhywogaethau hynny sydd ddim yn byw mewn agennau mewn creigiau a rhaid i unrhyw welliannau fod yn berthnasol ac yn briodol. Cewch ragor o gyngor gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod neu Gyfoeth Naturiol Cymru.

## Monitro

4.15 Lle bo angen trwydded, ac mewn rhai achosion eraill, bydd angen monitro'r datblygiad am ddwy flynedd o leiaf er mwyn sicrhau bod y mesurau lliniaru a gwneud iawn arfaethedig wedi bod yn llwyddiant.

## 5. Ymgynghori

5.1 Ar ôl i'ch cais chi/cais y datblygwr/cais eich cleient gael ei gyflwyno, rhaid ymgynghori ag Ecolegydd Cynllunio'r Awdurdod Lleol. Os oes arolygon ystlumod wedi eu cynnal ac mae llawer iawn o ystlumod/clwydfannau yn bresennol, rhaid ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

5.2 Os oes angen cynnal arolwg ystlumod, neu arolwg cwmpasu man lleiaf, efallai cewch chi wybod gan y Tîm Dilysu ar ôl dilysu'r cais os yw'n amlwg yn bodloni meini prawf Tabl 1 uchod, neu efallai y cysylltwn â chi wedyn ar ôl ymgynghori ag Ecolegydd Cynllunio'r Awdurdod Lleol. Cewch 10 diwrnod i gyflwyno'r arolwg ystlumod fel y gofynnwyd.

5.3 Felly, byddai'n syniad da gofyn cyngor yr Ecolegydd (efallai y bydd ffi) cyn cyflwyno'r cais er mwyn penderfynu a oes angen cynnal arolwg ystlumod ac i ba raddau. Bydd hynny'n golygu y bydd gwell cynllunio ar y datblygiad a bydd llai o gostau ar y lluniau pensaernïol oherwydd bydd modd ymgorffori unrhyw gamau lliniaru angenrheidiol o ran amseriadau ac addasiadau ymlaen llaw.

5.4 Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd mewn achosion o risg uchel yn unig, e.e. ystlumod llai cyffredin , clwydfannau mamolaeth. Ym mhob achos arall, mae'n debygol mai'r awdurdod lleol a fydd yn arwain ar yr ymatebion, ac unrhyw ofynion o ran lliniaru/gwneud iawn ac ati yn yr achosion hynny. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am ofyn am wybodaeth at arolwg yr ystlumod. Mae hyn yn unol â Chanllawiau Ymarfer Da 3 Cyfoeth Naturiol Cymru 'Dull i Ymdrin ag Ystlumod a Chynllunio' lle mae CNC yn cynnig cyngor safonol ar gyfer achosion o risg isel.

5.5 Cofiwch mewn rhai achosion bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am ddulliau llawer mwy llym o ran lliniaru/gwneud iawn na'r hyn y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei nodi a bydd angen gwelliannau hefyd. Mae hynny'n unol â 'r dyletswyddau sydd arnom o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

5.6 Os oes angen trwydded, yn aml bydd angen dangos copi o'r drwydded cyn dechrau ar unrhyw waith er mwyn profi cydymffurfiaeth. **Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n deall amodau gofynion penodol eich cais.**

## 6. Dogfennau, dolenni a chyfeiriadau defnyddiol


Canllawiau Ymarfer Da Arolygon Ystlumod yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod 2016

Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod (2014) Bats and Breathable Roofing Membranes - Update of Findings [ar gael ar-lein] http://www.bats.org.uk/news.php/254/bats_and_breathable_roofing_membranes_update_of_findings_%20

Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod (dim dyddiad) Gwarchod rhag achosi niwed [ar gael ar-lein] http://roost.bats.org.uk/principles/avoidance

Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod (dim dyddiad) Goleuadau [ar gael ar-lein] http://www.bats.org.uk/pages/bats_and_lighting.html

BSI (2013) Safonau Bioamrywiaeth Prydain: Y Cod Ymarfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013)

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (2015) *Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur*

Cyngor Sir Ceredigion (2015) *Taflen Gymorth Cadwraeth Natur a Thyrbinau Gwynt*

Canllawiau CIEEM (2013) ar gyfer Arfarnu Ecolegol Rhagarweiniol. [Ar gael ar-lein] http://www.cieem.net/data/files/Resource_Library/Technical_Guidance_Series/GPEA/GPEA_April_2013.pdf

CIEEM (2015) *What to Expect From a Bat Survey: A Guide for UK Homeowners*. [Ar gael ar-lein] http://www.cieem.net/publications/40/what-to-expect-from-a-bat-survey-a-guide-for-uk-homeowners

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010).

English Nature (2004) *Bat Mitigation Guidelines*

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Rheoliadau Perthi 1997.

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (dim dyddiad) O wefan y JNCC: http://jncc.defra.gov.uk/

Mitchel-Jones, A. and McLeish, A. (2004) *Bat Workers Manual.* [Ar gael ar-lein] http://jncc.defra.gov.uk/page-2861

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (2015). *Chanllawiau Ymarfer Da 3 Cyfoeth Naturiol Cymru 'Dull i Ymdrin ag Ystlumod a Chynllunio'*

Llywodraeth Cymru. (2009). *Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cadwraeth Natur.*

Llywodraeth Cymru. (2010). *Polisi Cynllunio Cymru.*

Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC) http://www.wwbic.org.uk/

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981). *(*fel y'i diwygiwyd*)*